

Yr Adran Cymunedau

Adborth a gafwyd yn y Digwyddiad ar gyfer
Rheolwyr Pobl a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018

Cynnwys

Digwyddiad ar gyfer Rheolwyr Pobl.....	3
Trosolwg	3
Adborth o Dasg 1.....	4
Pwrpas?	4
Y Prif Themâu	4
Cylch Gwaith.....	4
Sut y byddent yn edrych?	5
Ymrwymiad o ran amser ac adnoddau?	5
Adborth o Dasg 2.....	5
Adrodd ac atebolrwydd.....	5
Gwerth ychwanegol?.....	6
Partneriaethau?	6
Sut rydym yn gwneud i hyn ddigwydd?.....	6
Y digwyddiad nesaf	7
Cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cymunedau	7
Y Camau Nesaf	7

Digwyddiad ar gyfer Rheolwyr Pobl

Trosolwg

Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Crochan, y Ffwrnes, Llanelli ar 25, 26 a 27 Ebrill 2018. Gwahoddwyd grŵp o oddeutu 60 o staff i bob sesiwn. Cynhaliwyd y sesiynau dros dri bore am gyfnod o 3 awr, ac roedd amrywiaeth o reolwyr o bob is-adran yn bresennol. Eisteddai'r staff mewn grwpiau o 10 ynghyd â hwylusydd. Gwahoddwyd 178 o reolwyr pobl. Aeth 134 o bobl i'r digwyddiad. Roedd 75% o reolwyr pobl yno.

Y prif themâu yn y digwyddiad diwethaf a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017 oedd:

Y Prif Themâu

- ✓ Llesiant/cynaliadwyedd
- ✓ Y syniad bod atal yn well na gorfod datrys
- ✓ Ymyrraeth gynnar/Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- ✓ Gweithio gyda'n gilydd ar draws gwasanaethau
- ✓ Gwneud y mwyaf o adnoddau
- ✓ Troi at arbenigwyr
- ✓ Gwneud gwahaniaeth

Diffiniad o lesiant

- ✓ Cael ymdeimlad o bwrpas
- ✓ Dysgu
- ✓ Teimlo'n ddiogel
- ✓ Perthyn
- ✓ Bod yn iach (Meddyliol a Chorfforol)
- ✓ Teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi

Camu ymlaen â'r brif thema o ran llesiant a chynaliadwyedd a sut rydym i gyd yn cyfrannu at gyflawni hyn, a sut y mae angen inni gydwethio'n agosach er mwyn gallu cyflawni hyn. Thema'r gweithdy oedd Timau Ardal Trawsbynciol ac roedd dwy dasg i'w trafod.

Tasg 1

- ✓ Pwrpas
- ✓ Cylch gwaith
- ✓ Sut y byddent yn edrych?
- ✓ Ymrwymiad o ran amser ac adnoddau?

Tasg 2

- ✓ Adrodd ac atebolrwydd
- ✓ Gwerth ychwanegol?
- ✓ Partneriaethau?
- ✓ Sut rydym yn gwneud i hyn ddiawvdd?

Mae'r adborth a gafwyd yn y trafodaethau wedi'u cywain isod:

Adborth o Dasg 1

Pwrpas?

Creu fframwaith a strwythur sydd â themâu busnes trawsbynciol. Cael pwrpas clir a phrif ganlyniadau i wella llesiant ac ansawdd bywyd.

Rydym i gyd yn gweithio ac yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Gallwn ni i gyd gynnig rhywbeth gwahanol.

Dydym ni ddim eisiau bod yn rhan o drafodaeth lle nad oes penderfyniad yn cael ei wneud. Sefydlu'r thema a'r pwrpas cyn cynnwys y bobl gywir. Pwrpas a ffocws â chanlyniadau clir.

Helpu'r cymunedau i helpu ei gilydd drwy eu grymuso a chodi ymwybyddiaeth, addysgu a hyrwyddo gwasanaethau llesiant.

Mae atebion ar y cyd yn cael eu creu a gallwn ni i gyd gyfrannu atynt.

Cynrychiolydd o bob is-adran yn cwrdd ac yn rhannu gwybodaeth. Hyrwyddo iechyd a llesiant a chanolbwyntio ar ymyrraeth gynnar / atal. Cyfeirio – gwybod at bwy i droi.

- Deall 'beth' rydym yn ei wneud
- Cydweithio
- Manteisio ar 'cynhwysiant'
- Arbed arian / gwneud gwell defnydd o adnoddau
- Newid tymor hir â chanlyniadau iachus
- 'Newid mewn diwylliant' – poblogaeth a staff
- Cyfuno arbenigedd
- Cynaliadwyedd

Y Prif Themâu

Unigrwydd, codymau, gordewdra, ymarfer corff, ysmegu, alcohol, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, ffordd o fyw, colled/profedigaeth, dementia, digartrefedd, arwahanrwydd cymdeithasol.

- Adeiladu ar gydnerthu cymunedol.
- Dod â phobl ynghyd mewn ffordd iach. Llesiant corfforol ac iechyd meddwl.
- Gwneud cysylltiadau, codi ymwybyddiaeth a gwneud ymrwymiad cadarnhaol.

Cylch Gwaith

- Beth mae'r grŵp yn ei wneud? Pwy sy'n rhan ohono? Sut y mae'n cael ei gyflawni?

- Rhannu gwybodaeth.
- Byddwch yn barod i newid ein gwasanaethau i ddiwallu'r angen yn lleol.
- Gwrando, deall, myfyrio a dysgu.
- Aelodaeth y grŵp.
- Ymateb a newid yn ôl yr angen cynyddol.

Sut y byddent yn edrych?

Adeiladu ar ein Timau Amlddisgyblaeth yn ein 3 ardal leol, sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman.

Grwpiau gorchwyl a gorffen ar themâu/syniadau penodol.

Aelodaeth o'r grwpiau:

- Staff
- Aelodau Etholedig
- Cyngor Tref
- Iechyd
- Gwirfoddolwyr
- Ysgolion
- Grwpiau Cymunedol
- Galw ar randdeiliaid allweddol pan fo angen.

Ymrwymiad o ran amser ac adnoddau?

- Misol / Chwarterol
- Cyfarfodydd dros y cyfrifiadur
- Adeiladu ar gyfarfodydd ac adnoddau presennol
- Canolbwyntio ar y pwrpas a'r canlyniad
- Grŵp gorchwyl a gorffen
- Cyfle i rwydweithio a chaniatáu amser i feddwl yn wahanol

Adborth o Dasg 2

Adrodd ac atebolrwydd

- Y prif amcanion o'r strategaeth gorfforaethol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Adeiladu ar yr hyn rydym eisoes wedi ymrwymo iddo fel Cyngor.
- Adrodd yn ôl i'r Tîm Rheoli Adrannol.
- Cael Cydgysylltydd Prosiect
- Adrodd i'r grŵp llywio cymunedol

- Rhoi adborth mewn cyfarfodydd tîm
- Sicrhau bod y grŵp yn canolbwyntio ar brif thema

Gwerth ychwanegol?

- Gwybodaeth / dysgu ar y cyd
- Rhwydweithio
- Bywydau mwy cyflawn
- Mwy o annibyniaeth
- Cymorth i helpu eich hun
- Mae angen ac awydd ar bobl i gael eu cynnwys
- Beth sy'n gweithio'n dda mewn ardaloedd eraill? Pa fodelau sydd ar gael?
- Adeiladu ar esiamplau o arferion da o ran ymgysylltu cymunedol a darparu'r hyn y mae pobl yn dymuno'i gael
- Dysgu oddi wrth ein gilydd a gwneud y mwyaf o'n hadnoddau
- Mae hyn yn rhan o beth rydym yn ei wneud ac nid yn rhywbeth ychwanegol
- Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl
- Cael effaith ar gynifer â phosibl
- Cyfleoedd i weithio gyda gwahanol fathau o bobl
- Gwella llesiant drwy fod yn rhan o rywbeth a theimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi

Partneriaethau?

- Adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli. Dilyn arferion da a'u rhannu
- Hyrwyddo a defnyddio'r chwilotwr gwybodaeth ar y wefan genedlaethol DEWIS.
- Ymgysylltu â phobl
- Rhannu adnoddau a gwybodaeth – gwneud addewidion o bosibl
- Nodi grwpiau cymunedol a sefydliadau Cyhoeddus/Preifat/y Trydydd Sector
- Adeiladu platfform sy'n grymuso cymunedau ac yn creu cyfraniadau cadarnhaol a llesiant

Sut rydym yn gwneud i hyn ddigwydd?

- Gweithio gyda'n gilydd i wneud y newid.
- Ymrwymiad gan bawb yn yr adran.
- Trwy ddefnyddio technoleg a'r hyn sydd ar gael nawr, ynghyd â'r gallu i gydweithio.
- Ychwanegu gwerth lle y mae gennym i gyd rywbeth yn gyffredin.

Y digwyddiad nesaf

Gwnaethom drefnu cynhadledd i dargedu staff rheng flaen ar 15 Mehefin 2018 oedd yn cael ei chynnal ym Mharc y Scarlets. Roedd tua 400 o staff wedi'u rhannu i sesiwn yn y bore ac i sesiwn yn y prynhawn.

Roedd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar "gofal cwsmeriaid". Sut rydym i gyd yn cysylltu â'n gilydd ac yn darparu gwell gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Llesiant a Chynaliadwyedd a sut y byddent yn rhan ohono.

Sut y gallwn adeiladu/datblygu ein strategaeth llesiant ar gyfer ein staff – gwneud pobl yn hapus, yn iach ac yn fwy cynhyrchiol.

Sut y gallwn ni gynorthwyo ein staff i gadw'n iach a helpu pobl i helpu eu hunain ac eraill?

Cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cymunedau

Y cyfle nesaf ar gyfer staff gofal fydd yn haf 2018.

Y Camau Nesaf

- Ymrwymo i greu grŵp gorchwyl a gorffen a datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Llesiant a Chynaliadwyedd â phobl allweddol a chylch gwaith.
- Trefnu digwyddiad arall ar gyfer Ymgysylltu â Rheolwyr Pobl ym mis Medi 2018.
- Rhoi'r newyddion diweddaraf i staff a rheolwyr am y Broses Arfarnu.
- Cyfleoedd i staff gyfarfod â'r Cyfarwyddwr i gael trafodaethau anffurfiol unwaith bob chwarter.
- Datblygu a dosbarthu ffurflen adborth ar gyfer y Digwyddiad ar gyfer Rheolwyr Pobl a gynhaliwyd ym mis Ebrill ac ar gyfer y digwyddiad ym mis Mehefin.
- Monitro ac adolygu'r cwestiwn graddio.